

Cadeiriau

Os buoch yn Capel Coch yr wythnosau diwethaf, fe welsoch y cadeiriau newydd a gyraeddodd ym mis Gorffennaf. Maent yn edrych yn dda iawn, ac yn bwysicach na hynny gobeithio eich bod yn cytuno eu bod yn gyfforddus i eistedd ynddyn nhw. Mae yna un rhes arall i'w gosod cyn bydd y cyfan yn eu lle.

Banc Bwyd

Gwahodddwn chi os dymunwch i roi bwydydd ym mocs y Banc Bwyd wrth y drws yn Capel Coch. Rydym yn falch o gael cefnogi Banc Bwyd Caernarfon. Diolch am eich haelioni dros y flwyddyn ddiwethaf ac edrychwn ymlaen at allu parhau i gefnogi'r gwaith eleni.

Dyma'r math o bethau a dderbynnir:
Llefrith UHT neu bowdr - Siwgr - Sudd ffrwythau - Cawl tun - Pasta - Tuniau tomatos - Grawnfwyd - Siocled - Tuniau pwdin reis - Bagiau te - Coffi - Reis - Powdwr tatws stwnsh - cig tun - jam - ffrwythau tun - bisgedi.

Y mis nesaf - Deiniolen

Awst 31

5.00 p.m. - Mr Huw Fôn Roberts,
Brynrefail

Medi 7

9.30 a.m. a 5.00 p.m. - Y Gweinidog
Cymun yn oedfa'r hwyr
10.15 a.m. - Ysgol Sul

Medi 14

10.15 a.m. - Ysgol Sul
5.00 p.m. - Y Parchg Gwenda Richards

Medi 21

10.00 a.m. - Oedfa Deulu
5.00 p.m. - Y Gweinidog

gronyn.org

Cofiwch bod Gronyn i'w weld unrhyw bryd ar wefan yr Ofalaeth. Mae'r wefan yn rhoi gwybodaeth am gyfarfodydd ac oedfaon yr eglwysi. Mae'n ddigon rhywydd dod o hyd i'r wefan - www.gronyn.org neu gronyn.wordpress.com.

Cyhoeddiadau

CEFNYWAUN AC EBENESER

Dydd Sul, Medi 7: Gwasanaethir am 9.30 a 5.00 o'r gloch gan y Gweinidog.

Gweinyddir y Cymun yn oedfa'r hwyr.

CAPEL COCH A NANT PADARN

Dydd Sul, Medi 7: Gwasanaethir am 10.00 o'r gloch gan Andrew Settatee ac am 5.00 o'r gloch gan Mr John Hughes.

REHOBOTH

Dydd Sul, Medi 7: Ni fydd oedfa

Y mis nesaf - Llanberis

Awst 31

10.00 a.m. a 5.00 p.m. - Y Gweinidog

Medi 7

10.00 a.m. - Mr Andrew Settatee
5.00 p.m. - Mr John H Hughes

Medi 14

10.00 a.m. - Y Gweinidog (Oedfa Gymun)
11.15 a.m. - Ysgol Sul
5.00 p.m. - Oedfa MOLI

Medi 21

10.00 a.m. - Y Parchg Eifion W Williams
11.15 a.m. - Ysgol Sul
5.00 p.m. - Y Parchg Eifion W Williams



Gronyn

Taflen wythnosol Gofalaeth Deiniolen, Llanberis a Nant Peris
Rhif 602 - Dydd Sul, 31 Awst, 2014

Dechrau newydd

A hithau'n ddydd olaf Awst, edrychwn ymlaen at fis Medi a'i ddechreuadau newydd. Yr wythnos hon daw tymor a blwyddyn newydd yr ysgol a'r coleg. Bythefnos i nos Fercher bydd y Theatr Genedlaethol yn cyflwyno addasiad llwyfan Gareth Miles o *Chwalfa*, nofel T Rowland Hughes, yng nghanolfan newydd sbon danlli Pontio ym Mangor. A'r diwrnod canlynol, Medi 18, caiff pobl Yr Alban gyfle i bleidleisio dros ddechrau cwbl newydd mewn gwlad annibynnol. Gall fod yn chwalfa fawr i'r Deyrnas Unedig cyn diwedd Medi.

Bydd y gwaith adeiladu'n parhau ym Mangor am rai misoedd mae'n debyg cyn y bydd yr holl adeilad yn barod. Ond bydd y brif theatr yn barod y mis hwn. Theatr Bryn Terfel fydd enw honno, ond enw'r ganolfan gyfan sy'n ddiddorol. Defnyddiwyd yr enw 'Pontio' ar gyfer y gweithgareddau a gynhaliwyd ym Mangor a'r ardal ers i ddrysau Theatr Gwynedd gau yn 2008, a dyna fydd enw'r ganolfan newydd a fydd yn cynnwys llawer mwy na'r theatr ei hun. Mae'r enw 'Pontio' yn cyfleu'r pontio rhwng yr hen theatr a'r ganolfan newydd yn ogystal â'r pontio rhwng y ganolfan a'r Brifysgol ym Mangor a'r gymuned leol. Bwriedir i'r ganolfan, felly, fod yn fath o bont rhwng mwy nag un peth. Edrychwn ymlaen at ei gweld yn cyflawni hynny.

Edrych ymlaen at ddechrau newydd - a phontio newydd - y mae pawb yng nghyffiniau Penrhyndeudraeth hefyd. Ond ni ddaw'r dechrau newydd hwn y

mis hwn gan na fydd y bont Briwet newydd dros afon Dwyrdd yn barod tan ddechrau'r flwyddyn nesaf. Yn y cyfamser bydd rhaid i bobl sy'n mynd o Harlech i Benrhyndeudraeth ddal i deithio'r wyth milltir ychwanegol trwy Faentwrog sydd wedi bod yn boendod ers misoedd erbyn hyn. Mor falch fyddant o weld cwblhau'r bont newydd a fydd yn cysylltu dwy lan yr afon.

A dechrau newydd, rhyddid newydd a bywyd newydd a ddaw trwy Iesu Grist sydd wedi ei wneud yn bont rhyngom a Duw. Roedd angen pontio am fod yna chwalfa wedi bod yn y berthynas rhyngom ni a'r Brenin Mawr gan ein bod wedi cefnu arno a gwrthod plygu ym mhob peth iddo. Doedd dim modd i ni ei hunain wneud y pontio; doedd dim modd i ni ddadwneud y drwg na gwneud pethau'n iawn rhyngom a Duw. Roedd y bwch yn rhy fawr o'r hanner. Ond fe ddaeth Iesu i bontio'r bwch hwnnw a'i gwneud yn bosibl i ni gael perthynas â Duw. Ac fe rydd i ni obaith a rhyddid a gras i gefnu ar y caethiwed i bechod a oedd yn gyfrifol am chwalu ein perthynas â Duw i ddechrau.

Trwy'r Efengyl, cawn osod ein bryd ar fyw'r bywyd newydd: cael Iesu Grist i'n dysgu a'n harwain; cael profi'r wefr o ddeall bod y berthynas wedi ei hadfer; a gwybod am y rhyddid o fyw yn nerth ac yng ngras Crist bob dydd. A dymuniadau gorau am ddechrau newydd y mis hwn i ddisgyblion ysgol ac i Pontio ac i bobl yr Alban.

Gofalaeth Unedig
Deiniolen, Llanberis a Nant Peris

Cefnywaun (P), Deiniolen
Ebeneser (A), Deiniolen
Capel Coch (P), Llanberis
Nant Padarn A), Llanberis
Rehoboth (P), Nant Peris

Gweinidog: Y Parchg John Pritchard
Cilfynydd, Llanberis, Gwynedd
Ffôn: 01286 872390
e-bost: john.cilfynydd@btinternet.com

Gwefan yr Ofalaeth:
gronyn.wordpress.com
neu gronyn.org

Heddiw

Croeso cynnes i oedfaon Sul arall. Boed i Dduw fendithio ein haddoliad.

Gwasanaethir yn Neiniolen am 5.00 o'r gloch gan Mr Huw Fôn Roberts, Brynrefail. Estynnwn groeso cynnes iddo atom, a diolch am ei wasanaeth. Llongyfarchwn a dymunwn yn dda iddo ef a Lowri ar ei priodas yn ddiweddar.

Byddaf fi'n arwain y ddwy oedfa yn Llanberis, am 10.00 a 5.00 o'r gloch.

Nid oes oedfa yn Rehoboth heddiw.

Cofion

Ysgol Sul

Bydd Ysgol Sul Deiniolen yn ail ddechrau am 10.15 o'r gloch y Sul nesaf, Medi 7.

Bydd Ysgol Sul Capel Coch yn ail ddechrau bythefnos i heddiw, am 11.15 o'r gloch, ddydd Sul Medi 14.

Clwb Gwyliau Efe

Cynhaliwyd Clwb Gwyliau Efe yn Ysgol Gynradd Llanrug yn ystod wythnos gyntaf Gwyliau'r Haf (Gorffennaf 21–25), rhwng 10.00 ac 1.00 o'r gloch bob dydd. Hwn oedd y pedwerydd tro i'r Clwb gael ei gynnal, a chafwyd wythnos fendithiol iawn.

Unwaith eto cafwyd cwmni tim o bobl ifainc o'r Unol Dalieithau i'n helpu, a braf oedd cael criw mor frwdfrydig a gweithgar efo ni trwy'r wythnos. Diolch i' Arglwydd am anfon criw da o blant aton ni bob dydd hefyd, efo cymysgedd o'r rhai sydd wedi bod o'r blaen a rhai newydd.

Thema'r wythnos oedd 'Mega Makers', sef gwerslyfr a gyhoeddwyd gan Undeb y Gair. Rhaglen yn seiliedig ar Efengyl Mathew yw hon. Bob dydd, byddai gwyddonydd, yr Athro Anobeithiol, a'i gynorthwydd yn defnyddio'r 'Mega Machine' a wnaed gan yr Athro, i weld beth fyddai'n dod allan ohono. Bob dydd, byddai rhyw eitem neu lun oedd yn glwi i'r arbrawf y byddai'r ddau wyddonydd yn ei wneud. Byddai'r arbrofion hyn wedyn rywsut yn cysylltu yn ôl â'r Stori o'r Beibl am y dydd. Er enghraifft, ar y dydd Llun yr arbrawf oedd creu llosgfynydd allan o finegar a sodium bicarbonate. Roedd hwn yn cysylltu â'r thema, sef 'Lletach, lletach' a'r stori am Iesu'n galw ei ddisgyblion a'r ffaith bod ei wahoddiad ar i bobl ei ddilyn ef wedi ei ledaenu i bob math o bobl (pysgotwyr, casglwyr trethi, a hyd yn oed derfysgwyr). Nid yw Iesu'n gwahodd pobl 'dda' yn unig, ond pawb!

Gorffennon ni'r wythnos trwy edrych ar y Groes a sut mae'n dangos mor aruthrol fawr yw cariad Duw tuag atom.

Yr adnod ar gyfer yr wythnos oedd Effesiaid 3:18 sef; *Dw i am i chi, a phobl Dduw i gyd, ddeall mor aruthrol fawr ydy cariad y Meseia – mae'n lletach, yn hirach, yn uwch ac yn ddyfnach na dim byd arall!* (beibl.net)

Fel bob blwyddyn, cyflwynwyd y neges hon trwy gemau, crefft, caneuon, drama, cwisis, ac ati. Diolch o galon i John Settatree a Helen Franklin o Scripture Union Cymru am ddod i'n cynorthwyo. Diolch hefyd i'r criw o bobl ifainc o CIC Llanrug a Llanberis oedd yn fendith mawr. Diolch i'r tîm o bobl ifainc o America eto am eu gwaith caled a'u cyfraniad gwerthfawr. Diolch i Mrs Gwenno Hughes, Caeathro, am unwaith eto ofalu am y gwaith crefft i gyd. A diolch i Mr Robin Williams, Pennaeth Ysgol Llanrug am ei ganiatâd parod i ni ddefnyddio'r Ysgol eto.

Braint oedd cael bod ynglŷn â'r gwaith pwysig yma, a diolchwn i'r Arglwydd am y fraint yna a'r holl ffyrdd mae'n bendithio gwaith ein dwylo. Gweddiwn ar i ni weld llawer mwy o lewyrch a bendith ar waith yr Efengyl nid yn unig ym Mro'r Eco ond hefyd yng Nghymru i gyd.

Diolch yn fawr iawn i Andrew Settatree am yr adroddiad hwn, ac am ei holl waith yn trefnu ac yn arwain y Clwb Gwyliau eleni eto. Gobeithio bod pawb wedi mwynhau eu hunain, a gweddiwn y bydd Duw yn dal i fendithio'r neges a gyflwynwyd yn ystod yr wythnos. Gweddiwn y bydd y plant a fu yno yn awyddus i ddal i ddod i'r clybiau a'r Ysgol Sul yn ystod y misoedd sydd i ddod, er mwyn iddynt ddsygu rhagor am yr Arglwydd Iesu Grist a dod i fwynhau byw'r bywyd Cristnogol.

Pwyllgor Gofalaeth

Mae angen trefnu cyfarfod o Bwyllgor yr Ofalaeth y mis hwn i drefnu ar gyfer y drefn newydd o fis Ionawr ymlaen pan fydd yr Ofalaeth yn cael ei hystyngi i gynnwys eglwysi Bethlehem, Talybont a Charmel, Llanllechid.

Cyhoeddir dyddiad y cyfarfod hwnnw yn *Gronyn* y Sul nesaf.

Henaduriaeth arbennig

Cynhelir Henaduriaeth Arbennig i weinidogion, blaenoriaid a swyddogion Henaduriaeth Arfon yng nghapel Berea Newydd, Bangor am 7.00 o'r gloch, nos Lun, Medi 15 i gyflwyno Cynllun Strategaeth Diwygiedig Arfon i'n sylw, cyn ei anfon i sylw'r Gymdeithasfa yn y Gogledd ym mis Hydref.

Gofynnir i'r eglwysi ofalu eu bod yn cael eu cynrychioli yn y cyfarfod.

Cystadleuaeth Nadolig

Dolig y barod? Ddim yn hollol, er i mi weld coeden Nadolig mewn caffi yng Nghaer ganol Awst! Do, wir yr!

Mae'r Pedair Tudalen wedi trefnu cystadleuaeth o ddeunydd ar gyfer oedfa Nadolig i blant. Nid gofyn a wneir am wasanaethau Nadolig cyfan ond am eitemau gwahanol y gellir eu cynnwys mewn gwasanaeth Nadolig i blant. Gall y deunydd hwnnw fod yn benillion neu fyfyrdd neu sgets neu hanesyn neu gân – unrhyw beth y gall pobl ei gynnwys wrth roi trefn ar eu gwasanaethau eu hunain. Mae croeso i Ysgolion Sul anfon deunydd, ac felly os oes gennyhych ddeunydd addas y gallwn ystyried ei anfon, beth am roi gwybod i'r Gweinidog o hyn hyd ddiwedd mis Medi. Bydd yr eniillwyr yn cael dewis gwobrau o lyfrau neu arian i'w Hysgol Sul leol.